OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2025 Rhif (Cy. )

## TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Traffordd yr M4 Cyffordd 23A (Magwyr, Sir Fynwy) i Gyffordd 26 (Malpas, Casnewydd) a Chyffordd 30 (Porth Caerdydd, Pontprennau) i Gyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Gorffennaf 2025* |
| *Yn dod i rym* | *14 Gorffennaf 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer traffordd yr M4, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig ar y darnau penodedig o'r drafffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1), (4) a (7) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 Cyffordd 23A (Magwyr, Sir Fynwy) i Gyffordd 26 (Malpas, Casnewydd) a Chyffordd 30 (Porth Caerdydd, Pontprennau) i Gyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd) (Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro) 2025 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Gorffennaf 2025.

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2025 No. (W. )

## ROAD TRAFFIC, WALES

## The M4 Motorway Junction 23A (Magor, Monmouthshire) to Junction 26 (Malpas, Newport) and Junction 30 (Cardiff Gate, Pontprennau) to Junction 33 (Cardiff West) (Temporary 40 mph Speed Limit) Order 2025

| | |
|---|---|
| *Made* | *11 July 2025* |
| *Coming into force* | *14 July 2025* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the M4 motorway, are satisfied that traffic on the specified lengths of the motorway should be restricted because of works proposed on or near the road.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1), (4) and (7) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the M4 Motorway Junction 23A (Magor, Monmouthshire) to Junction 26 (Malpas, Newport) and Junction 30 (Cardiff Gate, Pontprennau) to Junction 33 (Cardiff West) (Temporary 40 mph Speed Limit) Order 2025 and this Order comes into force on 14 July 2025.

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these functions are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw:

(a) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifir yn adran 87 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**); a

(b) unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio at ddibenion y llynges, y fyddin neu'r llu awyr ac sy'n cael ei yrru gan berson sydd am y tro yn ddarostyngedig i orchmynion aelod o luoedd arfog y Goron, sy'n aelod o'r lluoedd arbennig—

(i) ac sydd wedi ei hyfforddi i yrru ar gyflymderau uchel ac sy'n gweithredu wrth ymateb, neu wrth ymarfer ymateb, i argyfwng diogelwch gwladol; neu

(ii) at ddiben hyfforddi person i yrru cerbydau ar gyflymderau uchel;

ystyr "y draffordd" ("*the motorway*") yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr "lluoedd arbennig" ("*special forces*") yw'r unedau hynny o'r lluoedd arfog y mae Cyfarwyddwr y Lluoedd Arbennig yn gyfrifol am gynnal eu galluoedd, neu sydd am y tro yn ddarostyngedig i reolaeth weithredol y Cyfarwyddwr hwnnw.

**Cyfyngiad**

**3.** Ni chaiff neb yrru unrhyw gerbyd modur, ac eithrio cerbyd esempt, yn gyflymach na 40mya ar y darnau o draffordd yr M4 a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**4.** Nid yw'r cyfyngiad yn erthygl 3 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Atal dros dro**

**5.** Mae unrhyw ddarpariaethau statudol sy'n cyfyngu ar gyflymder cerbydau ar y darnau penodedig o'r draffordd wedi eu hatal dros dro ar yr adegau hynny pan fo'r cyfyngiad a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

(**1**) Diwygiwyd adran 87 gan baragraff 55 o Atodlen 1 i Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (p. 21), paragraff 42 o Atodlen 4 i Ddeddf Troseddu Cyfundrefnol Difrifol a'r Heddlu 2005 (p. 15), paragraff 29(2) o Atodlen 8 i Ddeddf Troseddu a'r Llysoedd 2013 (p. 22) ac adran 50(4) a (5) o Ddeddf Dadreoleiddio 2015 (p. 20).

**Interpretation**

**2.** In this Order—

"exempted vehicle" *("cerbyd esempt")* means:

(a) any vehicle being used for the purposes described in section 87 of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**); and

(b) any vehicle being used for naval, military or air force purposes and being driven by a person for the time being subject to the orders of a member of the armed forces of the Crown, who is a member of the special forces—

(i) in response, or for practice in responding, to a national security emergency by a person who has been trained in driving at high speeds; or

(ii) for the purpose of training a person in driving vehicles at high speeds;

"special forces" *("lluoedd arbennig")* means those units of the armed forces the maintenance of whose capabilities is the responsibility of the Director of Special Forces, or which are for the time being subject to the operational command of that Director;

"the motorway" ("y *draffordd*") means the M4 London to South Wales Motorway.

**Restriction**

**3.** No person may drive any motor vehicle, other than an exempted vehicle, at a speed exceeding 40 mph on the lengths of the M4 motorway specified in the Schedules to this Order.

**Application**

**4.** The restriction in article 3 applies only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Suspension**

**5.** Any statutory provisions restricting the speed of vehicles on the specified lengths of the motorway are suspended during such times as the restriction specified in article 3 is in operation.

(**1**) Section 87 was amended by the Fire and Rescue Services Act 2004 (c. 21), Schedule 1, paragraph 55, the Serious Organised Crime and Police Act 2005 (c. 15), Schedule 4, paragraph 42, the Crime and Courts Act 2013 (c. 22), Schedule 8, paragraph 29(2) and the Deregulation Act 2015 (c. 20), section 50(4) and (5).

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 11 Gorffennaf 2025

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**Duration of this Order**

**6.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated 11 July 2025

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Transport
Welsh Government

## ATODLEN 1

Y darn o draffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 30 (Porth Caerdydd, Pontprennau) i Gyffordd 33 (Gorllewin Caerdydd), gan gynnwys yr holl ffyrdd ymadael ac ymuno rhwng y cyffyrdd hyn, o 00:01 o'r gloch ddydd Llun 14 Gorffennaf 2025 hyd 23:59 o'r gloch ddydd Gwener 8 Awst 2025.

## ATODLEN 2

Y darn o draffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru sy'n ymestyn o ganolbwynt Cyffordd 23A (Magwyr, Sir Fynwy) i Gyffordd 26 (Malpas, Casnewydd), gan gynnwys yr holl ffyrdd ymadael ac ymuno rhwng y cyffyrdd hyn, o 00:01 o'r gloch ddydd Llun 11 Awst 2025 hyd 23:59 o'r gloch ddydd Gwener 3 Medi 2025.

## SCHEDULE 1

The length of the M4 London to South Wales motorway that extends from the centre-point of Junction 30 (Cardiff Gate, Pontprennau) and Junction 33 (Cardiff West), including all exit and entry slip roads between these junctions from 00:01 on Monday 14 July 2025 to 23:59 on Friday 8 August 2025.

## SCHEDULE 2

The length of the M4 London to South Wales motorway that extends from the centre-point of Junction 23A (Magor, Monmouthshire) and Junction 26 (Malpas, Newport), including all exit and entry slip roads between these junctions from 00:01 on Monday 11 August 2025 to 23:59 on Friday 3 September 2025.